



Wales **Co-operative** Centre  
Canolfan **Cydweithredol** Cymru

Cynllun Iaith Gymraeg

Fersiwn: 3.1

Adolygwyd ddiwethaf: 21 Tachwedd 2019  
Awdur: Catherine Evans (Rheolwr Marchnata)

## Cynnwys

<b>1 Cyflwyniad</b> .....	4
<b>2. Datganiad</b> .....	4
<b>3. Safonau gwasanaeth</b> .....	5
Anfon neu dderbyn gohebiaeth .....	5
Gwneud neu dderbyn galwadau ffôn .....	5
Cynnal cyfarfodydd (gwahoddiad agored) a digwyddiadau cyhoeddus .....	6
Cyhoeddusrwydd a hysbysebu .....	7
Arddangos deunyddiau yn gyhoeddus .....	8
Cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau .....	8
Cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni .....	9
Gwefannau a gwasanaethau ar-lein.....	9
Arwyddion .....	10
Derbyn ymwelwyr .....	10
Arddangos hysbysiadau swyddogol .....	10
Dyfarnu cytundebau.....	11
Codi ymwybyddiaeth o'n gwasanaethau Cymraeg.....	12
Hunaniaeth gorfforaethol.....	12
Systemau annerch cyhoeddus .....	12
Gwaith gyda'r wasg a'r cyfryngau .....	12
<b>4. Safonau gweithredu</b> .....	13
Gweinyddiaeth fewnol .....	13
Y fewnwyd .....	13
Datblygu sgiliau Cymraeg ein gweithlu.....	13
Recriwtio staff.....	14
<b>5. Cadw cofnodion</b> .....	15

**6. Materion eraill ..... 16**

Fersiwn	Statws	Rheswm	Dyddiad
1.0	Drafft	Cymeradwywyd gan yr UDRh	Ionawr 2017
1.1	Cymeradwywyd	Cymeradwywyd gan y Bwrdd	Ebrill 2017
2.0	Drafft	Adolygu'r adran ar gynnal cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus	Tachwedd 2017
2.2	Cymeradwywyd	Cymeradwywyd gan yr UDRh	Rhagfyr 2017
3.0	Drafft	Adolygwyd gan y Rheolwr Marchnata a'i anfon at yr UDRh. Ni ofynnodd yr UDRh am unrhyw newidiadau.	Medi 2019
3.1	Cymeradwywyd	Cymeradwywyd gan yr UDRh	Tachwedd 2019

## 1 Cyflwyniad

Canolfan Cydweithredol Cymru yw corff cenedlaethol Cymru ar gyfer cwmnïau cydweithredol, mentrau cymdeithasol a busnesau sy'n eiddo i'w staff. Mae'r Ganolfan yn hyrwyddo ac yn cryfhau cwmnïau cydweithredol, mentrau cymdeithasol a busnesau sy'n eiddo i'w staff yng Nghymru.

Yn ogystal â chefnogi busnesau cymdeithasol, rydym yn defnyddio ein gwerthoedd cydweithredol i gryfhau cymunedau. Rydym yn datblygu a chyflwyno atebion cydweithredol i ymdrin â thlodi ac i hybu cynhwysiant.

Mae'r Ganolfan yn sefydliad sy'n cael ei sbarduno gan ei werthoedd. Cafodd rhestr o werthoedd ei llunio gan grŵp o staff ac mae'n cael ei defnyddio i lywio'r modd yr ydym yn gweithredu. Dyma ein gwerthoedd:

Bod yn gydweithredol, bod yn gefnogol, bod yn deg, bod yn onest, bod yn gadarnhaol, bod yn ysbrydoliaeth.

Rydym yn cydnabod bod ymrwymiad i'r iaith Gymraeg yn cyd-fynd â'n hawydd i fod yn deg ac yn adlewyrchu'r pwys a roddwn ar amrywiaeth.

## 2. Datganiad

Mae'r Ganolfan wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal ei busnes yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Daw llawer o gyllid y Ganolfan o ffynonellau cyhoeddus, felly mae dyletswydd arnom i roi darpariaeth ddwyieithog i'r cyhoedd yn unol â chanllawiau ein cyllidwyr.

Teimlwn yn gryf y dylid darparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd er mwyn cynnal yr egwyddorion canlynol:

- fod ein cleientiaid a rhanddeiliaid eraill yn gallu mynegi eu safbwyntiau a chyfleu eu hanghenion yn eu dewis iaith
- pwysigrwydd darparu gwasanaethau yn newis iaith y defnyddiwr gwasanaeth
- y ffaith fod galluogi cleientiaid a rhanddeiliaid eraill i ddefnyddio eu dewis iaith yn rhan bwysig o arfer da
- y ffaith y gallai gwadu'r hawl iddynt ddefnyddio eu dewis iaith beri anfantais i aelodau'r cyhoedd.

Mae'r Cynllun hwn yn esbonio sut y bydd y Ganolfan yn rhoi'r egwyddorion hyn ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol ac yn briodol.

### 3. Safonau gwasanaeth

#### 3.1 Anfon neu dderbyn gohebiaeth

- 3.11 Os byddwn yn derbyn gohebiaeth gan berson yn Gymraeg, byddwn yn ymateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person hwnnw wedi nodi nad oes angen ateb yn Gymraeg.
- 3.12 Pan fyddwn yn anfon gohebiaeth gyffredinol i sawl person ar yr un pryd at ddibenion marchnata, byddwn yn cyhoeddi fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth yr un pryd ag y byddwn yn cyhoeddi unrhyw fersiwn Saesneg.
- 3.13 Os byddwn yn cynhyrchu fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, ni fyddwn yn trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os bydd y fersiwn Saesneg wedi'i llofnodi, neu os darperir manylion cyswllt yn y fersiwn Saesneg, byddwn yn trin y fersiwn Gymraeg yn yr un modd).
- 3.14 Byddwn yn datgan mewn gohebiaeth, cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd pobl i ymateb inni neu ohebu â ni ein bod yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi.

#### 3.2 Gwneud neu dderbyn galwadau ffôn

- 3.21 Pan fyddwn yn cael galwad ffôn i'n prif rif ffôn byddwn yn cyfarch y sawl sydd ben arall y lein yn Gymraeg.
- 3.22 Pan fyddwn yn cael galwad ffôn i'n prif rif ffôn byddwn yn rhoi gwybod i'r sawl sydd ben arall y lein fod gwasanaeth Cymraeg ar gael.
- 3.23 Pan fyddwn yn cael galwad ffôn i'n prif rif ffôn byddwn yn ymdrin â'r alwad yn Gymraeg ar ei hyd os mai dyna ddymuniad y sawl sydd ben arall y lein (gan drosglwyddo'r alwad, os oes angen, i aelod o staff sy'n gallu ymdrin â'r alwad yn Gymraeg).
- 3.24 Pan fyddwn yn hysbysebu rhifau ffôn ni fyddwn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 3.25 Byddwn yn darparu'r un prif rif ffôn ar gyfer ein gwasanaeth Cymraeg ag ar

gyfer y gwasanaeth Saesneg cyfatebol.

- 3.26 Pan fyddwn yn cyhoeddi ein prif rif ffôn byddwn yn datgan (yn Gymraeg) ein bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg.
- 3.27 Os oes gennym ddangosyddion perfformiad ar gyfer ymdrin â galwadau ffôn yn Saesneg bydd gennym ddangosyddion perfformiad cyfatebol ar gyfer ymdrin â galwadau ffôn yn Gymraeg.
- 3.28 Pan fydd person yn cysylltu ag un o'n hadrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol, a bod y person hwnnw eisiau cael gwasanaeth Cymraeg, byddwn yn darparu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg (gan drosglwyddo'r alwad, os oes angen, i aelod o staff sy'n gallu ymdrin â'r alwad yn Gymraeg).
- 3.29 Pan fyddwn yn cael unrhyw alwad ffôn i rif llinell uniongyrchol (boed i rif llinell uniongyrchol adran neu i rif llinell uniongyrchol aelod unigol o staff), byddwn yn sicrhau, wrth gyfarch y sawl sydd ben arall y lein, nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 3.30 Bydd ein system ffôn awtomatig yn darparu'r gwasanaeth awtomatig cyflawn yn Gymraeg.
- 3.3 [Cynnal cyfarfodydd \(gwahoddiad agored\) a digwyddiadau cyhoeddus](#)
- 3.31 Pan fyddwn yn trefnu cyfarfod neu ddigwyddiad sydd ar agor yn ei natur ac nid yw'n gyfyngedig i nifer gyfyngedig o bobl a wahoddwyd yn benodol, neu sy'n ariannu o leiaf 50% o gyfarfod neu ddigwyddiad o'r fath, byddwn yn sicrhau, pan fydd y digwyddiad yn cael ei hyrwyddo, y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na'r Saesneg (er enghraifft, pan hysbysebir neu hysbysebir y digwyddiad).
- 3.32 Pan fyddwn yn trefnu cyfarfod neu ddigwyddiad agored, byddwn yn nodi ar unrhyw hysbysebion materol arno ac ar unrhyw wahoddiad iddo fod croeso i unrhyw un sy'n mynychu siarad Cymraeg yn y cyfarfod neu ddigwyddiad.
- 3.33 Pan fyddwn yn cyhoeddi gwahoddiadau i gyfarfod neu ddigwyddiad agored, byddwn yn cyhoeddi gwahoddiadau yn Gymraeg.
- 3.34 Pan ofynwn i bobl gofrestru ar gyfer y cyfarfod neu ddigwyddiad agored, byddwn yn gofyn iddynt os ydynt am siarad Cymraeg yn y digwyddiad.
- 3.35 Os yw o leiaf 10% o'r personau a gofrestrwyd wedi dweud wrthym eu bod yn dymuno siarad Cymraeg yn y cyfarfod neu ddigwyddiad agored, byddwn yn trefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar

gael yn y digwyddiad (oni bai ein bod yn cynnal y digwyddiad yn Cymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).

- 3.36 Os gwahoddir pobl i siarad yn ffurfiol mewn cyfarfod neu ddigwyddiad agored-
- (a) Byddwn yn gofyn i bob person wahoddiad i siarad a yw'n dymuno siarad Cymraeg, a
  - (b) os yw'r person hwnnw (neu o leiaf un o'r personau hynny) wedi dweud wrthym ei fod ef neu hi yn dymuno siarad yn Gymraeg yn y cyfarfod neu'r digwyddiad, byddwn yn trefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael ar gyfer hynny (oni bai ei fod yn ymarferol cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb y gwasanaeth hwnnw
- 3.37 Ar ddechrau cyfarfod neu ddigwyddiad agored lle mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael, byddwn yn hysbysu pawb sy'n bresennol
- (a) bod croeso iddynt siarad Cymraeg, a
  - (b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.
- 3.38 Ar ddechrau cyfarfod neu ddigwyddiad agored lle nad yw gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael, byddwn yn hysbysu pawb sy'n bresennol
- (a) bod croeso iddynt siarad Cymraeg, a
  - (b) nad oes gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael a dylent felly ailadrodd unrhyw beth a ddywedir yn Saesneg yn Gymraeg er budd pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg.
- 3.39 Pan fyddwn yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod neu ddigwyddiad agored, byddwn yn sicrhau bod y deunydd yn cael ei arddangos yn Gymraeg, ac ni fyddwn yn trin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.
- 3.40 Os byddwn yn trefnu cyfarfod neu ddigwyddiad agored, neu yn ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, byddwn yn sicrhau na chaiff yr iaith Gymraeg ei drin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn ystod y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir ar gyfer personau mynychu'r digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion a ddangosir yn y digwyddiad ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wnaed yn y digwyddiad).

### 3.4 [Cyhoedduswydd a hysbysebu](#)

3.41 Bydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu hysbysebu y byddwn yn ei gynhyrchu yn cael ei gynhyrchu yn Gymraeg, ac os byddwn yn cynhyrchu'r deunydd yn Gymraeg a Saesneg ni fyddwn yn trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

### 3.5 Arddangos deunyddiau yn gyhoeddus

3.51 Bydd unrhyw ddeunydd y byddwn yn ei arddangos yn gyhoeddus yn cael ei arddangos yn Gymraeg, ac ni fyddwn yn trin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg.

### 3.6 Cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau

3.61 Bydd unrhyw ddogfennau y byddwn yn eu cynhyrchu at ddefnydd y cyhoedd yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg.

3.62 Pan fyddwn yn cynhyrchu agendâu, cofnodion a phapurau eraill ar gyfer cyfarfodydd, cynadleddau neu seminarau sy'n agored i'r cyhoedd, byddwn yn eu cynhyrchu yn Gymraeg.

3.63 Pan fyddwn yn cynhyrchu trwyddedau neu dystysgrifau, byddwn yn eu cynhyrchu yn Gymraeg.

3.64 Bydd unrhyw lawlyfr, adroddiad, llyfryn, taflen, pamffled neu gerdyn y byddwn yn ei gynhyrchu er mwyn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd yn cael ei gynhyrchu yn Gymraeg.

3.65 Pan fyddwn yn cynhyrchu'r dogfennau canlynol, a'u bod ar gael i'r cyhoedd, byddwn yn eu cynhyrchu yn Gymraeg —

(a) polisiâu, strategaethau, adroddiadau blynyddol a chynlluniau corfforaethol;

(b) canllawiau a chodau ymarfer;

(c) papurau ymgynghori.

3.66 Pan fyddwn yn cynhyrchu dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg (boed fel fersiynau ar wahân neu beidio), ni fyddwn yn trin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.

3.67 Os byddwn yn cynhyrchu fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg ar wahân o ddogfen, byddwn yn sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir fod y



ddogfen ar gael yn Gymraeg hefyd.

### 3.7 Cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni

- 3.71 Bydd unrhyw ffurflen a gynhyrchwn at ddefnydd y cyhoedd yn cael ei chynhyrchu yn Gymraeg.
- 3.72 Os byddwn yn cynhyrchu fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg ar wahân o ffurflen, byddwn yn sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir fod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.
- 3.73 Os byddwn yn cynhyrchu ffurflenni yn Gymraeg ac yn Saesneg (boed yn fersiynau ar wahân neu beidio), byddwn yn sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg, ac ni fyddwn yn gwahaniaethu rhwng y fersiynau Cymraeg a Saesneg o safbwynt unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ffurflen (er enghraifft o safbwynt unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen, neu o safbwynt yr amser a ganiateir i ymateb i gynnwys y ffurflen).
- 3.74 Os byddwn yn cynhyrchu gwybodaeth ar ran cleient, bydd y wybodaeth yn Gymraeg os yw'r cleient wedi gwneud cais am hynny.

### 3.8 Gwefannau a gwasanaethau ar-lein

#### 3.81 Byddwn yn sicrhau bod—

- (a) y testun ar bob tudalen o'n gwefannau ar gael yn Gymraeg,
- (b) pob tudalen Gymraeg ar ein gwefannau yn gwbl weithredol, ac
- (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar ein gwefannau.

3.82 Os oes gennym dudalen Gymraeg ar y we sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, byddwn yn rhoi dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.

3.83 Bydd yr holl apiau y byddwn yn eu datblygu ein hunain yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg, ac ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r ap hwnnw.

3.84 Os bydd person yn cysylltu â ni yn Gymraeg drwy'r cyfryngau cymdeithasol neu drwy ein gwefannau, byddwn yn ymateb yn Gymraeg (os oes angen

ateb).

- 3.85 Bydd ein negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol yn y ddwy iaith. Efallai y bydd cynnwys negeseuon Cymraeg a Saesneg yn wahanol, neu efallai y cyhoeddir fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o'r un neges.
- 3.86 Bydd unrhyw bostiad blog y byddwn yn ei gyhoeddi ar ein gwefan yn cael ei gynhyrchu yn Gymraeg.
- 3.87 Os byddwn yn cynhyrchu fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg ar wahân o flog, byddwn yn sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir fod y blog hefyd ar gael yn Gymraeg.

### 3.9 Arwyddion

- 3.91 Pan fyddwn yn codi arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), bydd unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd yn cael ei arddangos yn Gymraeg (boed ar yr un arwydd â'r testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd ar wahân); a phan fydd yr un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, ni fyddwn yn trin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.
- 3.92 Pan fyddwn yn codi arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) sy'n cyfleu'r un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, byddwn yn gosod y testun Cymraeg yn y fath fodd fel ei fod yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.
- 3.93 Byddwn yn sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.

### 3.10 Derbyn ymwelwyr

- 3.101 Byddwn yn sicrhau bod staff yn ein derbynfa sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa yn Gymraeg yn gwisgo bathodynau i gyfleu hynny.

### 3.11 Arddangos hysbysiadau swyddogol

- 3.111 Bydd unrhyw hysbysiad swyddogol y byddwn yn ei gyhoeddi neu ei arddangos yn cael ei gyhoeddi neu ei arddangos yn Gymraeg, ac ni fyddwn yn trin unrhyw fersiwn Gymraeg o hysbysiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg.

3.112 Pan fyddwn yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad swyddogol sy'n cynnwys testun Cymraeg yn ogystal â thestun Saesneg, byddwn yn gosod y testun Cymraeg yn y fath fodd fel ei fod yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

### 3.12 Dyfarnu cytundebau

3.121 Pan fyddwn yn asesu'r gofynion ar gyfer cytundeb newydd neu'n adnewyddu cytundeb sy'n bodoli eisoes, byddwn yn asesu'r angen am sgiliau Cymraeg, a boed hi'n angenrheidiol i gontractwr gael sgiliau Cymraeg neu beidio byddwn yn

(a) nodi hynny wrth hysbysebu'r cytundeb, ac yn

(b) hysbysebu'r cytundeb yn Gymraeg.

3.122 Pa un a ydym wedi categorio cytundeb yn un lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol, neu angen cael eu dysgu, ai peidio, byddwn yn

a) nodi hynny wrth hysbysebu'r cytundeb, ac yn

b) hysbysebu'r cytundeb yn Gymraeg.

3.123 Pan fyddwn yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gytundeb, byddwn yn datgan yn y gwahoddiad fod croeso i'r sawl sy'n tendro gyflwyno tendrau yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.

3.124 Ni fyddwn yn trin tendr am gytundeb a lunnir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a lunnir yn Saesneg (gan gynnwys, ymhlith materion eraill, o safbwynt y dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau, ac o safbwynt yr amserlen ar gyfer rhoi gwybod i'r sawl sydd wedi tendro am benderfyniadau).

3.125 Pan fyddwn yn derbyn tendr yn Gymraeg a bod yn rhaid cyfweld y sawl sy'n tendro yn rhan o'n hasesiad o'r tendr—

(a) Byddwn yn cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu Cymraeg i Saesneg er mwyn galluogi'r sawl sy'n tendro i siarad Cymraeg yn y cyfweiliad, a

(b) os yw'r sawl sy'n tendro eisiau siarad Cymraeg yn y cyfweiliad byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i'r diben hwnnw (oni bai bod modd cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb y gwasanaeth hwn).

3.126 Pan fyddwn wedi dod i benderfyniad ynghylch tendr a gyflwynwyd yn Gymraeg, byddwn yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd am ein penderfyniad yn

Gymraeg.

3.127 Byddwn yn argymhell i'r holl gontractwyr sy'n gweithio yng Nghymru y dylai fod ganddynt bolisi ar yr iaith Gymraeg.

### 3.13 [Codi ymwybyddiaeth o'n gwasanaethau Cymraeg](#)

3.131 Byddwn yn hyrwyddo unrhyw wasanaeth a ddarparwn yn Gymraeg, ac yn hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.

3.132 Pan fyddwn yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth a ddarparwn yn Saesneg, bydd unrhyw ddogfen gyhoeddusrwydd neu wefan sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg hefyd yn datgan bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg.

### 3.14 [Hunaniaeth gorfforaethol](#)

3.141 Pan fyddwn yn creu ac yn cyflwyno ein hunaniaeth gorfforaethol, ni fyddwn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

### 3.15 [Systemau annerch cyhoeddus](#)

3.151 Pan fyddwn yn cyhoeddi neges ar system annerch gyhoeddus, gwneir y cyhoeddiad hwnnw yn Gymraeg ac, os yw'r cyhoeddiad yn cael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg, gwneir y cyhoeddiad yn Gymraeg gyntaf.

### 3.16 [Gwaith gyda'r wasg a'r cyfryngau](#)

3.161 Bydd unrhyw ddatganiad i'r wasg y byddwn yn ei gynhyrchu er mwyn ei gyhoeddi ar ein gwefan yn cael ei gynhyrchu yn Gymraeg.

3.162 Os byddwn yn cynhyrchu fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg ar wahân o ddatganiad i'r wasg, byddwn yn sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir fod y datganiad i'r wasg hefyd ar gael yn Gymraeg.

3.163 Pryd bynnag y bo modd, bydd fersiynau Cymraeg o ddatganiadau i'r wasg yn cynnwys manylion cyswllt cynrychiolydd ar ran y Ganolfan sy'n siarad Cymraeg.

## 4. Safonau gweithredu

### 4.1 Gweinyddiaeth fewnol

- 4.11 Byddwn yn annog defnydd o'r Gymraeg ymhlith ein staff ac yn fewnol.
- 4.12 Pan fyddwn yn cyhoeddi polisi yn ymwneud ag ymddygiad yn y gweithle, byddwn yn ei gyhoeddi yn Gymraeg.
- 4.13 Pan fyddwn yn cyhoeddi polisi yn ymwneud ag iechyd a lles yn y gwaith, byddwn yn ei gyhoeddi yn Gymraeg.
- 4.14 Pan fyddwn yn cyhoeddi polisi yn ymwneud â chyflogau a buddiannau'r gweithle, byddwn yn ei gyhoeddi yn Gymraeg.
- 4.15 Pan fyddwn yn cyhoeddi polisi yn ymwneud â rheoli perfformiad, byddwn yn ei gyhoeddi yn Gymraeg.
- 4.16 Pan fyddwn yn cyhoeddi polisi yn ymwneud ag absenoldeb o'r gwaith, byddwn yn ei gyhoeddi yn Gymraeg.
- 4.17 Pan fyddwn yn cyhoeddi polisi yn ymwneud ag amodau gwaith, byddwn yn ei gyhoeddi yn Gymraeg.
- 4.18 Pan fyddwn yn cyhoeddi polisi yn ymwneud â phatrymau gwaith, byddwn yn ei gyhoeddi yn Gymraeg.

### 4.2 Y fewnrwyd

- 4.21 Byddwn yn pennu ac yn cynnal tudalen (neu dudalennau) ar ein mewnwyd sydd yn darparu gwasanaethau a deunyddiau cymorth i hybu'r Gymraeg ac i gynorthwyo ein staff i ddefnyddio'r Gymraeg.

### 4.3 Datblygu sgiliau Cymraeg ein gweithlu

- 4.31 Byddwn yn asesu sgiliau Cymraeg ein staff.
- 4.32 Pan fyddwn yn darparu gwybodaeth i aelodau newydd o staff (trwy gyfrwng proses gyflwyno, er enghraifft), byddwn yn darparu gwybodaeth er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg.
- 4.33 Byddwn yn darparu testun ar gyfer pob aelod o'n staff a fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-bost, ac i ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw neges sy'n rhoi gwybod i

bobl eraill nad ydynt ar gael i ymateb i negeseuon e-bost.

#### 4.4 [Recriwtio staff](#)

4.41 Pan fyddwn yn asesu'r gofynion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, byddwn yn asesu'r angen am sgiliau Cymraeg, ac ym mhob achos byddwn yn

(a) nodi hynny wrth hysbysebu'r swydd, ac yn

(b) hysbysebu'r swydd yn Gymraeg mewn cyhoeddiadau Cymreig.

4.42 Pa un a ydym wedi categoreiddio swydd fel un lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol, neu angen cael eu dysgu, ai peidio, byddwn yn

a) nodi hynny wrth hysbysebu'r swydd, ac yn

b) hysbysebu'r swydd yn Gymraeg mewn cyhoeddiadau Cymreig.

4.43 Pan fyddwn yn hysbysebu swydd, byddwn yn datgan bod croeso i bobl ymgeisio am y swydd yn Gymraeg, ac na fydd cais a wneir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg.

4.44 Os byddwn yn cyhoeddi

(a) ffurflenni cais am swyddi;

(b) deunydd sy'n esbonio ein trefn o ran ymgeisio am swyddi;

(c) gwybodaeth am ein proses gyfweld, neu am ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi;

(ch) disgrifiadau swyddi;

byddwn yn eu cyhoeddi yn Gymraeg; a byddwn yn sicrhau na fydd y fersiynau Cymraeg o'r dogfennau yn cael eu trin yn llai ffafriol nag unrhyw fersiynau Saesneg o'r dogfennau hynny.

4.45 Ni fyddwn yn trin cais am swydd a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg (gan gynnwys, ymhlith materion eraill, o safbwynt y dyddiad cau a osodwn ar gyfer derbyn ceisiadau ac o safbwynt unrhyw amserlen ar gyfer rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau).

4.46 Byddwn yn sicrhau bod ein proses ymgeisio am swyddi —

(a) yn rhoi cyfle i'r ymgeisydd nodi y byddai ef neu hi yn hoffi siarad

Cymraeg mewn cyfweiliad neu mewn unrhyw ddull asesu arall, ac yn

(b) esbonio y byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu Cymraeg i Saesneg i'r perwyl hwnnw os oes angen;

ac, os yw'r ymgeisydd eisiau siarad Cymraeg yn y cyfweiliad neu'r asesiad, byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfweiliad neu'r asesiad (oni bai bod modd cynnal y cyfweiliad neu'r asesiad yn Gymraeg heb wasanaethau cyfieithu).

- 4.47 Pan fyddwn wedi dod i benderfyniad ynghylch cais am swydd a wnaed yn Gymraeg, byddwn yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd am ein penderfyniad yn Gymraeg.

## **5. Cadw cofnodion**

- 5.01 Byddwn yn cadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion a gawn ynghylch ein cydymffurfiaeth â'n polisi ar yr iaith Gymraeg.
- 5.02 Byddwn yn cadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig a gawn sy'n ymwneud â'n cydymffurfiaeth â'n polisi ar yr iaith Gymraeg.
- 5.03 Byddwn yn cadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig a gawn sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg (boed y gŵyn honno'n ymwneud â'n polisi ar yr iaith Gymraeg ai peidio).
- 5.04 Byddwn yn cadw cofnod o'r camau yr ydym wedi'u cymryd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'n polisi ar yr iaith Gymraeg.
- 5.05 Byddwn yn cadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau Cymraeg ein staff yn unol â pharagraff 4.31) o nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan fo gennym yr wybodaeth honno, byddwn yn cadw cofnod o lefel sgiliau'r staff hynny.
- 5.06 Byddwn yn cadw copi o bob asesiad y byddwn yn ei gynnal (yn unol â pharagraff 4.41) o'r sgiliau Cymraeg a allai fod yn angenrheidiol ar gyfer swydd newydd neu swydd wag.
- 5.07 Byddwn yn cadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o nifer y swyddi newydd a gwag a gafodd eu categoreiddio (yn unol â pharagraff 4.41) fel swyddi lle'r oedd;
- a) sgiliau Cymraeg yn hanfodol

- b) angen dysgu sgiliau Cymraeg wrth gael eich penodi i'r swydd
- c) sgiliau Cymraeg yn ddymunol, neu
- ch) sgiliau Cymraeg ddim yn angenrheidiol

## **6. Materion eraill**

- 6.1 Bwrdd Canolfan Cydweithredol Cymru sy'n gyfrifol am arolygu'r modd yr ydym yn cydymffurfio â'r polisi hwn.
- 6.2 Byddwn yn darparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gwneud cais amdani ynghylch ein cydymffurfiaeth â'r polisi iaith Gymraeg hwn.
- 6.3 Byddwn yn sicrhau bod copi o'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn ar gael i'r cyhoedd
  - (a) ar ein gwefan, a
  - (b) ym mhob un o'n swyddfeydd sydd yn agored i'r cyhoedd